

Gofyniad tryloywder GBER - pethau y bydd angen inni eu gwybod

- **Enw'r sefydliad sy'n cael cymorth.**
- **Cod adnabod y sefydliad** - dylai hwn fod rhif TAW yr UE. Os nad oes gan y derbynnydd un, yna ychwanegwch rif y cwmni, yr elusen neu ei rif cofrestru academiaidd. Os na fydd unrhyw un o'r rhain ar gael, cysylltwch â'r Uned Cymorth Gwladwriaethol i gadarnhau cod adnabod priodol
- **Maint y sefydliad** – h.y. bach, canolig neu fawr.
- **Y rhanbarth y lleolir y sefydliad ynddo** (lefel NUTS 2)

Mae UKL1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cynnwys:

Ynys Môn (UKL11)
Gwynedd (UKL12)
Conwy a Sir Ddinbych (UKL 13)
De-orllewin Cymru (UKL14)
Cymoedd Canolog (UKL15)
Cymoedd Gwent (UKL16)
Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot (UKL 17)
Abertawe (UKL 18)

Mae UKL2 Dwyrain Cymru'n cynnwys:

Sir Fynwy a Chasnewydd (UKL21)
Caerdydd a Bro Morgannwg (UKL22)
Sir y Fflint a Wrecsam (UKL 23)
Powys (UKL24)

[Rhestr lawn o ranbarthau NUTS 2](#)

- **Cod NACE y sefydliad** – Mae Codau NACE ar gyfer dosbarthiad ystadegol gweithgareddau economaidd yn y gymuned Ewropeaidd

[Rhestr lawn o godau NACE](#)

- **Swm y cymorth (mewn punnoedd sterling)** – cyfrifwch werth unrhyw gymorth a roddir mewn punnoedd sterling (£) o dan yr Ewro (€) gan ddefnyddio [trosr arian parod](#) y Comisiwn Ewropeaidd.

I gael y gyfradd drosi gywir, sicrhewch eich bod yn nodi dyddiad y dyfarniad yn y trosr.

- **Math o gymorth** – gallai hyn fod yn:

Grant neu gymhorthdal i'r gyfradd llog
Benthyciad
Blaendaliadau ad-daladwy neu grant ad-daladwy
Gwarant
Mantais neu eithriad trethi
Cyllid risg

- **Dyddiad y rhoddir y cymorth**
- **Diben y cymorth** - at beth y caiff ei ddefnyddio? Beth yr ydych yn gobeithio ei ennill trwy roi'r cymorth?
- **Awdurdod rhoi'r grant**
- **Cyfeiriad ar gyfer mesur y cymorth a ddefnyddir**